

# Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd - Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru

Rhagfyr 2022

Ar 30 Mai 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pedwar o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig sy'n berthnasol i rôl weithdrefnol y Pwyllgor Busnes. Mae'r argymhellion yn ymwneud â:

- Maint Llywodraeth Cymru;
- Nifer y Dirprwy Lywyddion;
- Y Nifer o Gomisiynwyr y Senedd; a'r
- Canlyniadau pe bai Aelod yn newid plaid wleidyddol.



## **Cynnwys**

<b>Y cefndir.....</b>	<b>3</b>
<b>Ein casgliadau.....</b>	<b>3</b>
<b>Maint Llywodraeth Cymru.....</b>	<b>5</b>
<b>Nifer y Dirprwy Lywyddion.....</b>	<b>7</b>
<b>Y nifer o Gomisiynwyr y Senedd.....</b>	<b>11</b>
<b>Canlyniadau pe bai Aelod yn newid plaid wleidyddol.....</b>	<b>12</b>

## Y cefndir

1. Gan nodi bwriad y Pwyllgor Busnes i ystyried 4 argymhelliad perthnasol adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gwblhau ein hystyriaethau yn ystod mis Tachwedd 2022 er mwyn llywio paratodau Llywodraeth Cymru o'r ddeddfwriaeth berthnasol. Fe wnaethom gytuno i alw am dystiolaeth ar y materion hyn yn ystod mis Hydref. Daeth yr alwad hon i ben ar 1 Tachwedd. Hefyd, gwahoddwyd safbwyntiau yn benodol gan:
  - Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd;
  - Comisiwn y Senedd; a
  - Llywodraeth Cymru.
2. Er mwyn hwyluso trafodaeth drawsbleidiol, cafodd Aelodau a grwpiau gwleidyddol yn y Senedd hefyd wahoddiad i fynegi eu barn.
3. Nodir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad 1. Gellir gweld ymatebion unigol i'r alwad am dystiolaeth [yma](#).

## Ein casgliadau

4. Fe wnaethom ystyried y materion perthnasol sy'n codi o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig mewn cyfarfodydd ar 15, 22 a 29 Tachwedd 2022. Yng ngoleuni'r safbwyntiau a'r dystiolaeth a gafwyd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru, wrth baratoi deddfwriaeth berthnasol, ystyried ein casgliadau canlynol:
  - Credwn y byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd, o 60 i 96, gael ei ategu gan gynnydd yn uchafswm y nifer o Weinidogion Cymru y gellir eu penodi, o 12 i 17. Rydym hefyd o'r farn y byddai'n rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng. Dylai cynnydd o'r fath fod yn destun pleidlais gadarnhaol (mwyafrif) yn y Senedd.

- Rydym o'r farn y byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd gael ei ategu gan gynnydd yn y nifer uchaf a ganiateir o Ddirprwy Lywyddion, o 1 i 2. Os mai dim ond un Dirprwy Lywydd a etholir, dylid cynnal y trefniadau presennol, sy'n sicrhau cydbwysedd gwleidyddol. Os etholir ail Ddirprwy Lywydd, dylid darparu yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau:
  - a) pan fo hynny'n ymarferol, ni ddylai'r Dirprwy Lywydd ychwanegol berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â naill ai'r Dirprwy Lywydd arall neu'r Llywydd; a
  - b) nid yw pob Llywydd yn aelodau o grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol/rôl anweithredol. Yn dilyn newid deddfwriaethol, bydd hefyd angen i'r Rheol Sefydlog bresennol sy'n ymwneud â chydbwysedd gweithredol/ anweithredol (6.12) gael ei hadolygu gan y Senedd.

Mae adran 25(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall mwyafrif o ddau draean o'r Senedd benderfynu datgymhwyso'r gofyniad na ddylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, ac na ddylai'r ddau berthyn i grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol. Credwn y dylid cynnal y ddarpariaeth hon ar gyfer unrhyw ddarpariaethau newydd sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio newid teitlau deddfwriaethol 'Presiding Officer' a 'Deputy Presiding Officer' i ddarparu ar gyfer y teitlau dwyieithog canlynol yn Neddf Llywodraeth Cymru: 'Llywydd/Speaker' a 'Dirprwy Lywydd/Deputy Speaker'. Dim ond os oes gan Lywodraeth Cymru hyder ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y dylai darpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth ddiwygio ac na fyddai perygl y byddai'r Bil yn cael ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys.
- Ni ddylid cynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth ddiwygio sy'n newid maint neu gyfansoddiad presennol Comisiwn y Senedd.
- Ni ddylai'r ddeddfwriaeth ddiwygio gynnwys darpariaethau sy'n arwain at ganlyniadau i Aelod o'r Senedd sy'n newid plaid neu grŵp gwleidyddol, neu a ddaw'n annibynnol, rhwng etholiadau'r Senedd.

## Maint Llywodraeth Cymru

5. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell:

*"...bod Pwyllgor Busnes y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o'r cwestiwn ynghylch a fyddai unrhyw gynnydd ym maint Llywodraeth Cymru yn briodol, o ystyried y ffaith y byddai angen cynnal mwy o waith craffu. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau." (Argymhelliad 4)*

6. Wrth esbonio'i argymhelliad, roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn cydnabod y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno cyflwyno achos dros gynyddu ei maint i gyd-fynd â'r cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd, ond nododd "y byddai angen ystyried unrhyw gynnig o'r fath yn ofalus, mewn modd cymesur ac yn ddarostyngedig i waith craffu deddfwriaethol manwl". Mae'n nodi, "na ddylai fod yn benderfyniad i'r Llywodraeth ar ei phen ei hun, gan y bydd unrhyw gynnydd yn ei maint yn golygu gostyngiad cyfatebol yng nghapasiti'r Senedd ar gyfer gwaith craffu". Ar y sail honno, galwodd ar Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Busnes i hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o'r cwestiwn hwn.

7. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y Prif Weinidog, i benodi:

- Gweinidogion Cymru o blith yr Aelodau;<sup>1</sup>
- Dirprwy Weinidogion Cymru o blith yr Aelodau, i gynorthwyo'r Prif Weinidog, Gweinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i arfer eu swyddogaethau.<sup>2</sup>

8. Mae'r Ddeddf Hefyd yn pennu terfyn o gyfanswm o 12 o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion (heb gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol).<sup>3</sup> Mae hyn yn golygu na all mwy na 14 neu tua 1 o bob 4 (23.3%) o Aelodau o'r Senedd fod yn aelod o'r Llywodraeth.

---

<sup>1</sup> **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**, adran 48.

<sup>2</sup> **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**, adran 50.

<sup>3</sup> **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**, adran 51.

---

9. Mynegwyd nifer o safbwyntiau gwahanol ar faint Llywodraeth Cymru yn y dystiolaeth a gawsom. Cynigodd Plaid Lafur y Senedd y dylid cynyddu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru i 16. Cynigiodd Grŵp Plaid Cymru'r Senedd y dylid cynyddu'r terfyn i 19 ac y dylai'r trothwy gael ei gymeradwyo drwy bleidlais yn y Senedd, yn amodol ar fwyafrif syml.
10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cynyddu nifer y Gweinidogion o 12, ond gyda therfyn cyfreithiol i nifer penodol yn yr ystod 16-19 wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.
11. Mae ymateb Laura McAllister a Paul Silk yn datgan nad oes dystiolaeth i gefnogi rhesymeg dros gynnydd ym maint Llywodraeth Cymru.

## Ein barn ni

---

12. Credwn fod modd, mewn Senedd 96 Aelod yn y dyfodol, cyfiawnhau cynnydd i'r uchafswm o nifer Gweinidogion Cymru y gellir eu penodi. O ystyried y newidiadau i'r dirwedd wleidyddol, gan gynnwys datganoli rhagor o bwerau sydd eisoes wedi digwydd a'r cyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd ar y Llywodraeth pan ymadawodd y DU â'r UE, ni fyddai'n ddoeth cyfyngu maint y Llywodraeth i'w lefel bresennol.
13. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol mai prif ddiben unrhyw gynnydd i aelodaeth cyffredinol y Senedd ddylai fod er mwyn cynyddu capasiti gwaith craffu'r Senedd. Am y rheswm hwn credwn fod rheoli nifer y Gweinidogion a allai gael eu penodi yn parhau i fod yn angenrheidiol. Rydym o'r farn y byddai cadw terfyn uwch mewn deddfwriaeth yn caniatáu hyblygrwydd i'r Llywodraeth benodi Gweinidogion ychwanegol, yn ôl yr angen, gan atal hyn hefyd rhag tynnu'n anghymesur o'r cynnydd i gapasiti craffu'r Senedd.
14. Yn ein trafodaethau, fe fynegwyd nifer o safbwyntiau gwahanol ynghylch beth ddylai uchafswm Gweinidogion Cymru fod. Rydym wedi dod i'r casgliad, o fwyafrif, y byddai cynnydd o 12 (y lefel bresennol) i 17 yn briodol. Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, sydd hefyd yn rhan o rif cyffredinol y Llywodraeth.
15. Byddai cynnydd yn yr uchafswm o 12 i 17 yn gynnydd o 42% yn nifer Gweinidogion Cymru. Byddai hyn yn gynnydd llai na'r pro rata o'i gymharu â'r cynnydd cyffredinol yn nifer yr Aelodau (a gynigir sy'n cynyddu 60%). Byddai'r cynnydd hwn yn ehangu maint absoliwt Llywodraeth Cymru ond yn ei leihau fel cyfran o gyfanswm maint y Senedd. Mae mwyafrif ein haelodaeth yn credu y byddai hyn yn darparu cynnydd priodol i nifer

Gweinidogion Cymru, a byddai'n mynd i'r afael â phryderon am effaith unrhyw gynnydd ar allu'r Senedd i graffu. Mynegodd Darren Millar, sy'n cynrychioli'r Ceidwadwyr Cymreig, a'r Llywydd y farn y dylai'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru gael ei osod ar 16.

16. Er mwyn diogelu datganoli grymoedd pellach yn y dyfodol, neu fel arall amgylchiadau lle'r ystyrir bod gwerth mewn cynnydd, rydym hefyd yn credu y dylid sefydlu mecanwaith i alluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynnydd pellach i'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru, y tu hwnt i 17. Ein barn ni yw y dylai cynnig o'r fath gael ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth yn amodol ar bleidlais gadarnhaol o'r Senedd, ac ni ddylai ddod â nifer Gweinidogion Cymru y tu hwnt i 'uchafswm absoliwt' o 19. Mae mwyafrif ein haelodaeth o'r farn y dylai pleidlais o'r fath gael ei phasio ar fwyafrif syml, ond dywedodd Darren Millar y dylai fod angen cefnogaeth dwy ran o dair yr Aelodau sy'n pleidleisio. Dylai unrhyw gynnydd arfaethedig, ar ôl cytuno arno gan y Senedd, fod yn barhaol.

**Casgliad 1.** Credwn y byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd, o 60 i 96, gael ei ategu gan gynnydd yn uchafswm y nifer o Weinidogion Cymru y gellir eu penodi, o 12 i 17. Rydym hefyd o'r farn y byddai'n rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng. Dylai cynnydd o'r fath fod yn destun pleidlais gadarnhaol (mwyafrif) yn y Senedd.

## Nifer y Dirprwy Lywyddion

17. Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig:

*"...y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau."* (Argymhelliad 5)

18. Mynegodd y Pwyllgor Diben Arbennig y farn "mai'r Senedd ddylai benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r capasiti ychwanegol [mae]

wedi'i argymhell" ac y "gellid dadlau y dylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion os yw am wneud hynny (ac unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â'r blaid y gallai ddod ohoni)."

19. Ar hyn o bryd, mae Adran 25(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd ethol un Dirprwy Lywydd, ac un yn unig. Daeth Deddf Cymru 2017 ag adrannau 25(1)(b) a 25(2) i (15) o Ddeddf Llywodraeth Cymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sy'n golygu y gallant bellach gael eu diwygio neu eu diddymu gan Fil Senedd.
20. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Grŵp Llafur y Senedd nad yw, mewn egwyddor, yn gwrthwynebu cynnydd yn nifer y Dirprwy Lywyddion. Mae Grŵp Plaid Cymru'r Senedd, ar y llaw arall, yn datgan y byddai un Dirprwy Lywydd yn ddigonol yn y Senedd nesaf.
21. Mae cyd-ymateb y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn datgan sut mae cynnydd mewn pwerau deddfu a phwerau trethu wedi gwneud busnes yn fwy cymhleth i'w lywio. Eu barn hwy yw y gallai fod angen i Senedd fwy gwrdd yn amlach a/neu gynnal sesiynau Cyfarfod Llawn hirach, gan arwain at fwy fyth o alw ar amser y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.
22. Cynigiodd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd welliannau i ddeddfwriaeth bresennol er mwyn dileu'r cyfyngiad sy'n caniatáu dim ond un Dirprwy Lywydd. Er mwyn sicrhau bod yr egwyddor o hyblygrwydd yn cael ei chynnal, maent yn cynnig diwygio deddfwriaeth i ganiatáu ar gyfer "o leiaf un" Dirprwy Lywydd.
23. Cynigiwyd ganddynt, hefyd, pe bai newid yn cael ei wneud, bod adrannau 25(7-9) Deddf 2006 yn cael eu diwygio i sicrhau na ddylai'r Llywydd a'r holl Ddirprwy Lywyddion berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, ac ni ddylent i gyd berthyn i'r grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol neu anweithredol.
24. Cynigiodd Lee Waters MS y dylai nifer y Dirprwy Lywyddion fod yn fater i'r Senedd drwy Reolau Sefydlog, ac roedd Laura McAllister a Paul Silk, yn eu hymateb ar y cyd, yn dweud nad ydynt yn credu bod angen Dirprwy Lywyddion ychwanegol i gyflawni amcanion dilys a thystiolaethol ehangu'r Senedd.

## Ein barn ni

---

25. Credwn ei bod yn ymarferol, mewn Senedd 96 Aelod yn y dyfodol, y bydd y galwadau ar Lywydd y Senedd a'r Dirprwy Lywydd yn cynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, efallai y bydd Senedd y dyfodol yn dewis cynnal rhagor o



Gyfarfodydd Llawn neu sesiynau sy'n para'n hirach o ran hyd. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd hefyd yn nodi bod cymhlethdod y dirwedd gyfansoddiadol a gofynion eraill y ddwy rôl, er enghraifft, mewn perthynas â phwerau deddfu a threthiant a chynrychioli'r Senedd mewn ymweliadau a digwyddiadau mewnol ac allanol, hefyd wedi cynyddu ers gosod y terfyn gwreiddiol.

26. Wrth ystyried y mater hwn rydym wedi nodi eto mai prif bwrpas ehangu'r Senedd yw cynyddu ei gallu i graffu. O ganlyniad, credwn y dylai'r Senedd gael yr hyblygrwydd i benodi un Dirprwy Lywydd ychwanegol, gan gynyddu nifer y Dirprwy Lywyddion a allai gael eu hethol o un i ddau.
27. O ystyried trefniant presennol y Senedd, lle na ddylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fod yn aelodau o'r un grŵp gwleidyddol, ac ni ddylai'r ddau fod yn aelod o grŵp sydd â rôl weithredol/ anweithredol, rydym wedi ystyried y mater o sut y gellir cynnal y cydbwysedd gwleidyddol hwn pe bai'r fath beth â bod tri swyddog, yn hytrach na'r ddau bresennol.
28. Credwn, os bydd Senedd Cymru'n dewis ethol dau Ddirprwy Lywydd, y dylid darparu i sicrhau na all pob swyddog fod yn aelodau o grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol/anweithredol. Credwn hefyd, pan fo hynny'n ymarferol, ni ddylai'r Dirprwy Lywydd ychwanegol berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â naill ai'r Dirprwy Lywydd arall neu'r Llywydd. Mae adran 25(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall mwyafrif o ddau draean o'r Senedd benderfynu datgymhwyso'r gofyniad na ddylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, ac na ddylai'r ddau berthyn i grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol. Dylid cynnal y ddarpariaeth hon.
29. Os mai dim ond un Dirprwy Lywydd a etholir, dylid cynnal y trefniadau presennol, sy'n sicrhau cydbwysedd gwleidyddol.

**Casgliad 2.** Rydym o'r farn y byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd gael ei ategu gan gynnydd yn y nifer uchaf o Ddirprwy Lywyddion a ganiateir, i'w cynyddu o 1 i 2. Os mai dim ond un Dirprwy Lywydd a etholir, dylid cynnal y trefniadau presennol, sy'n sicrhau cydbwysedd gwleidyddol. Os etholir ail Ddirprwy Lywydd, dylid darparu yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau:

- a) pan fo hynny'n ymarferol, ni ddylai'r Dirprwy Lywydd ychwanegol berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â naill ai'r Dirprwy Lywydd arall neu'r Llywydd; a
- b) nad yw pob Llywydd yn aelodau o grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol/rôl anweithredol. Yn dilyn newid deddfwriaethol, bydd hefyd angen i'r Rheol Sefydlog bresennol (6.12) sy'n ymwneud â chydbwysedd gweithredol/ anweithredol (6.12) gael ei hadolygu gan y Senedd.

Mae adran 25(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall mwyafrif o ddau draean o'r Senedd benderfynu datgymhwyso'r gofyniad na ddylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, ac na ddylai'r ddau berthyn i grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol. Credwn y dylid cynnal y ddarpariaeth hon ar gyfer unrhyw ddarpariaethau newydd sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

30. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r teitlau "Presiding Officer" a "Deputy Presiding Officer", fel maent yn bodoli mewn deddfwriaeth. Credwn fod y diwygiadau arfaethedig yn gyfle addas i newid y teitlau hyn er mwyn adlewyrchu statws seneddol y Senedd yn well. Am y rheswm hwn, mae mwyafrif ein haelodaeth yn credu y dylid diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i newid y teitlau Saesneg o "Presiding Officer" i "Speaker" ac o "Deputy Presiding Officer" i "Deputy Speaker". Credwn hefyd y dylid sefydlu'r teitlau Cymraeg "Llywydd" a "Dirprwy Lywydd" mewn deddfwriaeth sylfaenol, i'r graddau bod hyn o fewn cymhwysedd y Senedd.
31. Mynegodd Sian Gwenllian ar ran Plaid Cymru, a Jane Dodds, sy'n cynrychioli Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, y farn mai dim ond y teitlau Cymraeg "Llywydd" a "Dirprwy Lywydd" ddylai gael eu defnyddio yn y ddeddfwriaeth.
32. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym yn nodi y dylai'r Llywodraeth benderfynu a yw unrhyw newidiadau o'r fath o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd cyn eu cynnwys mewn Bil.

**Casgliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio newid teitlau deddfwriaethol 'Presiding Officer' a 'Deputy Presiding Officer' i ddarparu ar gyfer y teitlau dwyieithog canlynol yn Neddf Llywodraeth Cymru: "Llywydd/Speaker" a "Dirprwy Lywydd/Deputy Speaker". Dim ond os oes gan Lywodraeth Cymru hyder eu bod o

fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y dylai darpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth ddiwygio.

## Y nifer o Gomisiynwyr y Senedd

33. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell:

*"... y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy na phedwar Aelod o Gomisiwn y Senedd pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau." (Argymhelliad 6)*

34. Wrth egluro ei argymhelliad, dywedodd y Pwyllgor Diben Arbennig:

*"Credwn mai'r Senedd ddylai benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r capasiti ychwanegol rydym wedi'i argymhell. Gellid dadlau y dylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i benodi Aelodau ychwanegol o Gomisiwn y Senedd, os yw am wneud hynny."*

35. Comisiwn y Senedd yw'r corff corfforaethol a sefydlwyd o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, gyda'r swyddogaeth o ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i'r Senedd sy'n ofynnol at ddibenion y Senedd, neu sicrhau eu bod yn cael eu darparu ar gyfer y Senedd. Mae wedi ei sefydlu fel corff parhaol, er mwyn gallu ymrwymo i gontractau. Nid yw'n dod i ben adeg diddymu'r Senedd.

36. O dan adran 27(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru, aelodau o Gomisiwn y Senedd fydd y Llywydd a phedwar Aelod arall o'r Senedd.

37. Mae adran 27(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolau Sefydlog ddarparu, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, na ddylai mwy nag un aelod o'r Comisiwn (ac eithrio'r Llywydd) berthyn i unrhyw un grŵp gwleidyddol. Yr egwyddor y tu ôl i hynny yw ceisio sicrhau, lle bo modd, gynrychiolaeth ar draws y pleidiau.

38. Mae adran 27(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn gadael darpariaeth ar gyfer penodi pedwar aelod arall y Comisiwn i'r Rheolau Sefydlog.

39. Er i'r Aelodau Llafur fynegi barn amrywiol ynghylch y nifer o Gomisiynwyr y Senedd, mae Plaid Lafur y Senedd wedi dewis peidio â gwneud cynnig penodol.
40. Nid yw Grŵp Plaid Cymru'r Senedd yn cynnig cynnydd yn y nifer o Gomisiynwyr y Senedd, er iddo ddatgan y dylid cael o leiaf un Comisiynydd o bob grŵp gwleidyddol ac y gellir penderfynu ar hyn drwy newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, yn y dyfodol.
41. Gan na ragwelir y bydd y broses o ddiwygio'r Senedd yn newid swyddogaethau statudol y Comisiwn, barn Comisiwn y Senedd oedd nad oedd angen capasiti ychwanegol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol ar hyn o bryd. Ond dywedodd y Comisiwn ei bod yn bosibl y byddai angen ailedrych ar gapasiti'r Comisiwn wrth i'r Senedd esblygu. Nid yw Comisiwn y Senedd yn rhagweld y bydd angen mwy nag un aelod ychwanegol i wneud comisiwn o chwech, gan gynnwys Llywydd. Felly mae'n awgrymu y gallai fod yn werth caniatáu hyblygrwydd i'r Senedd drwy ei Rheolau Sefydlog i benderfynu ar y nifer priodol o Gomisiynwyr.
42. Nid yw Comisiwn y Senedd chwaith yn gweld bod angen newid darpariaethau o dan Adran 27(4) Deddf Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth ddatgan bod yn rhaid i'r Comisiwn gynnwys un aelod o bob grŵp gwleidyddol (yn ychwanegol at y Llywydd) cyhyd ag y mae'n "rhesymol ymarferol".

## Ein barn ni

---

43. Nid ydym yn credu bod y diwygiadau arfaethedig yn golygu bod angen cynnydd i nifer Comisiynwyr y Senedd. Rydym wedi dod i'r casgliad felly na ddylid gwneud dim darpariaeth yn y ddeddfwriaeth ddiwygio sy'n newid cyfansoddiad presennol Comisiwn y Senedd.

**Casgliad 4.** Ni ddylid cynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth ddiwygio sy'n newid maint neu gyfansoddiad presennol Comisiwn y Senedd.

## Canlyniadau pe bai Aelod yn newid plaid wleidyddol

44. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell:
-

*"... bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried canlyniadau Aelod yn newid plaid wleidyddol lle mae wedi cael ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig." (Argymhelliad 10)*

45. Nododd y Pwyllgor yn ei adroddiad:

*"Rydym yn cydnabod y gellir dadlau, o dan system rhestr gyfrannol gaeedig, na ddylai Aelod etholedig, ar ôl cael ei ethol ar restr plaid, wedyn allu newid plaid y tu allan i etholiad. Gellir gwneud gwrth-ddadl y gallai'r etholwyr yn rhesymol ddisgwyl i'w cynrychiolwyr arfer barn ar eu rhan: a all gynnwys gadael neu newid plaid os yw'r cynrychiolydd yn credu bod hyn er budd yr etholwyr."*

46. Yn y Senedd, fel ym mhob deddfwrfa yn y DU, nid oes cyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau etholedig ildio eu seddau os byddant yn newid plaid, naill ai o'u gwirfodd neu'n anwirfoddol, yn ystod tymor seneddol. Yr unig anghymhellion ffurfiol sy'n cyfyngu ar allu Aelodau i ffurfio grŵp gwleidyddol newydd o dan rai amgylchiadau yw'r rhai a geir yn Rheolau Sefydlog y Senedd.

47. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y system etholiadol fel bod pob Aelod yn cael ei ethol drwy system rhestr plaid gaeedig. Gellir dadlau y byddai hyn yn gwanhau'r farn bod Aelodau'n cael eu hethol trwy fandad personol ac i gryfhau'r farn bod Aelodau'n cael eu hethol yn bennaf fel cynrychiolwyr eu plaid.

48. Mae'n werth nodi y byddai newid i system rhestr plaid gaeedig heb unrhyw system o isetholiadau yn golygu na fyddai Aelod yn gallu ymddiswyddo o'i sedd a cheisio cael ei ailethol i'r sedd honno "ar bwynt o egwyddor".

49. Cnewyllyn y ddadl hon yw'r cwestiwn ynghylch perchnogaeth seddau, ac ai "pobl" ynteu "pleidiau" sy'n ganolog i'r system etholiadol.

50. Yn eu tystolaeth roedd Plaid Lafur y Senedd a Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd yn cydnabod cymhlethdod y mater hwn, a'i bod yn bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng bod pleidleiswyr yn cael y blaidd y gwnaethon nhw bleidleisio drosti, a sicrhau bod Aelodau'n dal i allu mynegi safbwyntiau annibynnol a allai fod yn wahanol i safbwynt eu pleidiau.

51. Mynegodd y ddwy blaid amheuon ynghylch unrhyw system lle byddai'r Aelodau yn cael eu hatal rhag gadael grŵp gwleidyddol, neu os byddai gadael grŵp gwleidyddol yn golygu eu bod yn colli eu sedd yn y Senedd.
52. Maent wedi cynnig y dylai Aelodau allu gadael eu grwpiau gwleidyddol heb golli eu seddi. Fodd bynnag, dylai'r Aelodau hynny wynebu cyfyngiadau o ran ymuno â grŵp gwleidyddol gwahanol i'r un y cawsant eu hethol drwyddo, gan ganiatau i Aelodau, felly, eistedd fel Aelodau annibynnol. Gellid cyflawni hyn drwy newidiadau i Reolau Sefydlog, ac ni fyddai angen deddfwriaeth o reidrwydd.
53. Mae Grŵp Plaid Cymru'r Senedd hefyd yn credu y dylai mecanweithiau a darpariaethau fod ar waith i sicrhau, os bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd, drwy greu sedd sy'n digwydd dod yn wag, y dylai'r ymgeisydd nesaf ar restr y blaid eu disodli. Dywedasant y dylid ystyried cynnal cydbwysedd o 50/50 o leiaf rhwng y rhywiau.
54. Barn Llywodraeth Cymru yw, er y dylai aelodau o'r Senedd allu ymddiswyddo o'u grŵp gwleidyddol ac eistedd fel aelod annibynnol heb golli eu sedd, bod dadl dros gyfyngiadau arnynt o ran ymuno â grŵp gwleidyddol gwahanol neu greu un. Mae'n credu ymhellach y dylid ystyried ai Rheolau Sefydlog ddylai fod yn gyfrwng ar gyfer cyflawni unrhyw gyfyngiadau o'r fath.
55. Mewn ymatebion gan Aelodau unigol, roedd Lee Waters AS yn cydnabod cymhlethdod y mater a'r angen i wneud dyfarniad cytbwys a dywedodd mai Llywodraeth ddylai annog mwyafrif, neu greu clymblaid, i weithredu ei busnes - a bod hynny'n cynnwys ei haelodau meinciau cefn ei hun. Os yw ymgeiswyr yn cael eu rhestru ar y papur pleidleisio, yn ogystal â'u plaid, maent yn dal i allu hawlio mandad personol.
56. Dywedodd Jane Dodds AS y byddai'n afresymol i Aelodau o dan y system rhestr gaeedig, sy'n newid plaid, gadw eu seddi, a'u bod, o dan yr amgylchiadau hynny, wedi colli eu mandad ac y dylent gael eu disodli gan yr ymgeisydd nesaf ar restr y blaid.
57. Dywedodd y ddau Aelod fod yn rhaid i'r Llywodraeth hefyd ystyried yn ofalus y materion cyfreithiol fel yr hawliau i ryddid mynegiant gwleidyddol a all godi pe bai Aelod yn gadael plaid. Mae Jane Dodds AS hefyd yn credu y dylai darpariaethau fod ar waith i sicrhau, os bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd, trwy greu sedd sy'n digwydd dod yn wag, y dylai'r

ymgeisydd nesaf ar restr y blaid eu disodli. Dylid ystyried cynnal cydbwysedd o 50/50 o leiaf rhwng y rhywiau.

## Ein barn ni

---

58. Ar ôl ystyried dwy ochr y ddadl hon yn ofalus, nid ydym yn credu y dylai deddfwriaeth ddiwygio'r Senedd nodi canlyniadau i Aelod o'r Senedd sy'n newid eu plaid neu grŵp gwleidyddol, neu'n dod yn annibynnol, rhwng etholiadau'r Senedd. Rydym wedi cytuno i roi ystyriaeth bellach i Reolau Sefydlog sy'n ymwneud ag aelodaeth o grŵp wrth adolygu'r Rheolau Sefydlog cyn y Senedd nesaf.

**Casgliad 5.** Ni ddylai'r ddeddfwriaeth ddiwygio gynnwys darpariaethau sy'n arwain at ganlyniadau i Aelod o'r Senedd sy'n newid plaid neu grŵp gwleidyddol, neu a ddaw'n annibynnol, rhwng etholiadau'r Senedd